# Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Hydref 7fed, 2014

**Presennol:** Dewi Jones (Cadeirydd), Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Catrin Roberts, Huw P Roberts, Ian Trow, Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

1335 Croesawyd pawb gan y Cadeirydd a derbyniwyd ymddiheuriadau gan Alwyn Roberts, Alan Jones Evans, Heledd Jones, Karl Jones a Rhodri Jones. Dymunwyd yn dda iawn i Rhodri a Clare Jones ar eu priodas yn ddiweddar.

1336 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar faterion ar yr Agenda.

1337 Datganodd Huw Antur buddiant ym materion cynllunio Glanllyn.

1338 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Medi'r 2il 2014.

1339 Yn codi o'r Cofnodion, dywedodd y Swyddog Ariannol ei bod yn bwriadu ymholi am arian cyfalaf ar gyfer paentio railings y fynwent. **Gweithredu: Swyddog Ariannol**

1340 Cafwyd trafodaeth ar sut y gall Cynghorau / Partneriaeth Penllyn gefnogi Gwynedd i gynnal gwasanaethau yn wyneb y toriadau i gyllid Cyngor Gwynedd. Trafodwyd amrywiaeth o syniadau, megis cynllun gofal neu gwmni gwirfoddol i'r henoed a'r methedig, gwaith a wneir yn lleol i heneiddio'n dda, creu asiantaeth i gynnig gofal mwy ffurfiol, gwneud tasgau yn y gymuned. Syniad hyd yn oed mwy lleol oedd ceisio sefydlu "Paned Deg" wrth i bobl fynd i'r siop yn y bore ac felly creu cyfle i gymdeithasu yn yr Eagles. Cynigwyd holi mudiadau lleol am syniadau. **Gweithredu: Clerc**

1341 Derbyniwyd Adroddiad ysgrifenedig y Cynghorydd Sir a gyfeiriodd at nifer o broblemau lleol y bu iddo eu trafod gyda swyddogion. Diolchwyd iddo am ei ymateb buan i'r problemau hyn.

**1342 Materion Eiddo'r Cyngor**

i. Y Fynwent: ystyriwyd adroddiad is-bwyllgor 18/9/14 a Pholisi'r Fynwent. Cytunwyd i fwrw ymlaen gyda chyfarfod Cyngor Llandderfel. Awgrymwyd rhai newidiadau i'r Polisi i'w trafod yng nghyfarfod mis nesaf . Cytunwyd i gysylltu gyda Karl Jones parthed trwsio wal y fynwent.

ii. Toiledau: cytunwyd i ofyn i'r Cynghorydd Alan Jones Evans i chwilio am grant i'w huwchraddio.

**1343 Materion ariannol**

**i.** Derbyniwyd adroddiad ar y sefyllfa gyfredol gan y Swyddog Ariannol; disgwylir rhent Cwt yr Hers i ddod i law. Rhoddwyd caniatâd i'r Swyddog Ariannol dalu bil trydan y toiledau pan ddaw anfoneb cywir.

**ii.** Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis.

**iii.** Derbyniwyd derbynneb Hacker Young

**iv.** Derbyniwyd gwahoddiad i wneud cais am ad-daliad £30 o ffi'r Ymchwiliad Ariannol.
**Gweithredu: Swyddog Ariannol**

**v.** Derbyniwyd llythyr oddi wrth Gymdeithas y Motor Neurone Disease yn diolch am y siec a enillwyd gan Mrs Dyfir Gwent am addurno'i thŷ adeg Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

**1344 Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned**

i. Diogelwch rheiliau uwch ben Capel Cynllwyd – adroddodd y Cynghorydd Sir iddo gynnal cyfarfod safle gyda Swyddogion Gwynedd a chytunwyd i adnewyddu'r polion a phaentio'r canllawiau (o gyllideb 2015-16)

ii. Trwsio difrod i'r ffos wrth y Gilfach - adroddodd y Cynghorydd Sir iddo dderbyn addewid y byddid yn glanhau'r ffos a llenwi'r gwagle gyda cherrig draen. Bydd yr arwydd hefyd yn cael ei leoli'n well.

iii. Mae cytundeb i osod arwydd yn Tŷ'n Ddôl yn cyfeirio trafnidiaeth at Langywer (Llyn Tegid).

iv. Cytunwyd i anfon at Uned Trafnidiaeth Gwynedd i dynnu sylw nad ydyw'r bws olaf o'r Bala wedi troi mewn i'r pentraf ar sawl nos Sadwrn yn ddiweddar gan beri anhwylustod i deithwyr. **Gweithredu: Clerc**

v. Cytunwyd i ofyn i'r ysgol dynnu'r arwydd a osodwyd i groesawu'r Eisteddfod.
**Gweithredu: Clerc**

**1345 Partneriaeth Penllyn**: derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr a gyfeiriodd at agoriad yr Henblas. Erbyn hyn mae pob ystafell wedi ei chymryd a llawer o weithgareddau'n digwydd yn yr ystafelloedd cyfarfod. Mae'r adnoddau yn ardderchog gan gynnwys wi-fi a system telegyfathrebu effeithiol. Mae gwaith gofalu am asedau Parc Cenedlaethol Eryri yn parhau.

Cytunwyd i ofyn am drefnu achlysur yn yr Henblas ar gyfer Cynghorwyr Penllyn.
**Gweithredu: Clerc**

**1346 Gohebiaeth:**

**1. Parc Cenedlaethol Eryri:**

i Derbyniwyd gwybodaeth am ymgynghoriad ar Ganllawiau Cynllunio atodol drafft – i'w gweld mewn llyfrgelloedd ac ar wefan Parc Cenedlaethol Eryri.

ii Cymeradwywyd cais NP5/71/39V sef tros-doi'r gorchudd metel presennol, gosod ynysiad wal, adeiladu ystafell sychu, portsh caeedig i'r llety ystafell wely ac amnewid ffenestri a newidiadau amrywiol i'r ffabrig allanol yng Ngwersyll yr Urdd, Glanllyn.

iii Cymeradwywyd cais NP5/71/39U sef adeiladu strwythur cwrs rhaffau yng Ngwersyll yr Urdd, Glanllyn.

iv Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i gais NP5/71/449 sef Cynllun Trydan Dŵr ar Afon Dwrnudon.

**2 Gwynedd:**

- **i.** Trafodwyd y gwahoddiad i anfon data neu wybodaeth a fyddai'n cyfrannu at lunio strategaeth Lletya Pobl Hŷn (erbyn 24/10/14). Cytunwyd i ymateb gan grybwyll yr angen am ofal lletya gyda nyrsio a gofal dementia ym Meirionnydd. Cytunwyd i fynegu syniadau'r Cyngor am ofalu yn y catref. **Gweithredu: Clerc**
- **ii.** Derbyniwyd gwybodaeth am yr her ariannol i Gyngor Gwynedd a phosteri parthed cyfarfodydd i wrando ar farn trigolion yn Y Bala (3/11/14)
- **iii.** Derbyniwyd gwahoddiad i fynychu cyfarfod yn Nhan y Bwlch parthed cludiant cymunedol. Cytunodd y Clerc i fynychu ar ran y Cyngor Cymuned (13/1//0/14) **Gweithredu: Clerc**

5 **Un Llais Cymru:** Derbyniwyd rhaglen Hyfforddiant 2014. Cytunwyd mai da fyddai ceisio trefnu hyfforddiant i Benllyn. **Gweithredu: Clerc**

**6 Eraill:**

- i. Derbyniwyd gwahoddiad i ymuno gyda SLCC (Society of local Council Clerks) ar y cyd gyda Chyngor Tref Y Bala. **Gweithredu: Clerc / Swyddog Ariannol**
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth am grant Grŵp Cynefin; cafwyd awgrym y gellid gwneud cais am fyrddau pwrpasol i'r ystafell bwyllgor bach yn y Neuadd Bentref.
- iii. Ystyriwyd cais am wybodaeth gan Arfon Hughes am y sefyllfa dai yn Llanuwchllyn a chytunwyd i roi gwybod iddo mai yma mae'r ward gyda'r cyfartaledd mwyaf o aneddau gweigion ar hyn o bryd. **Gweithredu: Clerc**

Amser gorffen: 9.20pm